# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod Rhithiol a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones ac R Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2020.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 AILSTRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y Swydd Wag Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd a'r angen i ystyried opsiynau posibl ar gyfer symud ymlaen i lenwi'r bwlch yn yr uwch haen arweinyddiaeth a rheoli'r Cyngor.

Ystyriodd y Pwyllgor y ddau opsiwn a gyflwynwyd a'r ystyriaethau ariannol cysylltiedig â'r opsiynau hyn.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD:-**

- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith ac yn dilyn hynny i'r Cyngor Llawn, y dylid dileu'r swydd Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd o Gyfansoddiad y Cyngor;**

- **Yn dilyn cadarnhau'r uchod, bod swydd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd yn cael ei hysbysebu'n allanol.**
- **Bod swydd newydd, Swyddog Strategol Corfforaethol, yn cael ei sefydlu a'i hysbysebu'n allanol.**

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**6 PENODIADAU STAFF**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad llafar mewn perthynas â'r swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd copi o'r adroddiad ei gylchredeg yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD y dylai'r swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gael ei hysbysebu'n allanol ym mis Ionawr 2021.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**